South Wales
POLICE
HEDDLU
De Cymru

HEDDLU DE CYMRU

ADRODDIAD AR Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

2020

Mark Stevenson

Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol

Cyflwyniad

Dyma bedwerydd adroddiad blynyddol Heddlu De Cymru ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fel y nodir yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Penodol ac Awdurdodau Cyhoeddus) 2017, mae'n ofynnol i holl gyflogwyr y sector cyhoeddus sydd â 250 o gyflogeion neu fwy gyhoeddi gwybodaeth am y bylchau cyflog rhwng y rhywiau.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn tynnu sylw at ein gweithlu, faint o staff yr heddlu a swyddogion yr heddlu rydym yn eu cyflogi, yn ogystal â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein sefydliad.

Rydym am i'r rheini sydd wedi'u cyflogi gan Heddlu De Cymru barhau i fod yn falch, yn broffesiynol ac yn gadarnhaol ac rydym yn ceisio denu'r bobl a all gynnig y gwerthoedd hynny i fywyd yn Heddlu De Cymru.

Mae Heddlu De Cymru yn cynnwys swyddogion yr heddlu, sydd, fel gweision y Goron, yn gweithredu o fewn Rheoliadau'r Heddlu a strwythur tâl y cytunir arno'n genedlaethol, a staff yr heddlu, y penodir graddau iddynt yn unol â strwythur tâl a gymhwysir yn gyfartal i bob aelod o staff yr heddlu, ni waeth beth yw ei ryw.

Mae ein hadroddiad yn parhau i ddangos nad yw dynion a menywod yn Heddlu De Cymru yn cael eu talu'n wahanol am yr un gwaith. Fodd bynnag, er mai menywod yw ychydig dros 60% o Staff yr Heddlu, mae canran uwch o fenywod yn gweithio ymhlith y graddau is ar gyfer staff yr heddlu, ac mae llai o swyddogion yr heddlu benywaidd at ei gilydd. Serch hynny, rydym yn dechrau gweld effaith y gwaith rydym wedi'i wneud fel rhan o'n cynllun cyflawni ar gyfer recriwtio a chadw staff benywaidd. Er enghraifft, rydym yn parhau i weld mwy o swyddogion yr heddlu benywaidd yn ymuno â ni ac mae hyd yn oed mwy o swyddogion yr heddlu benywaidd yn mynd yn eu blaen i rolau â chyflog uwch.

Yn gryno: Bu cynnydd o 0.20% yn nifer staff yr heddlu benywaidd ers 2019. Bu cynnydd o 0.5% yn nifer swyddogion yr heddlu benywaidd ers 2019, a menywod oedd 40% o'r holl recriwtiaid yn 2020.

Mae wedi bod yn darged gennym i gynyddu nifer y menywod yn chwartelau uchaf y swyddogion sy'n ennill y cyflogau uchaf. Mae hyn wedi cynyddu 0.44% yn y chwartel uchaf a 4.32% yn chwartel 3, gyda symudiadau yn amlwg rhwng y chwartelau eraill. Rydym yn disgwyl i'r cynnydd hwn barhau y flwyddyn nesaf gan fod Dirprwy Brif Gwnstabl benywaidd wedi'i phenodi, gan gynyddu'r gynrychiolaeth ar lefel ein Prif Swyddogion ymhellach.

Er bod y niferoedd hyn yn fach, mae'n arwydd o duedd gadarnhaol. Mae hefyd yn seiliedig ar wybodaeth ar 31 Mawrth 2020 ac mae'r data sydd ar gael eisoes yn dangos y gallwn ddisgwyl gweld gwelliannau pellach ar gyfer mis Mawrth 2021.

Mae'r duedd hon yn galonogol iawn ac o ystyried ymrwymiad parhaus fy nhîm, o dan gyfarwyddyd y Prif Gwnstabl Jeremy Vaughan, byddwn yn parhau i gyflawni gweithlu sy'n adlewyrchu ein cymunedau a'r rhai rydym yn eu gwasanaethu yn well. Rwy'n parhau'n hyderus y byddwn yn cyflawni gwelliannau parhaus.



Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn yr un modd â phob cyflogwr sy'n cyflogi 250 o gyflogeion neu fwy. Caiff hyn ei gyhoeddi ar ein gwefan ein hun ac ar www.gov.uk. Mae'n ofynnol i ni adrodd mewn chwe ffordd wahanol: cymedr a chanolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau; cymedr a chanolrif y bwlch bonws rhwng y rhywiau (y gyfran o ddynion a menywod a gafodd fonws), a nifer y dynion a'r menywod yn ôl bandiau cyflog chwartelau.

Mae adrodd ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn ofyniad ar wahân i gynnal archwiliad cyflog cyfartal. Nid adolygiad o gyflog cyfartal am waith cyfartal mohono. Yn hytrach, mae'n cymharu cyfraddau tâl fesul awr ac unrhyw fonws a roddir i'r staff yn ôl rhyw, gan geisio nodi unrhyw anghydbwysedd.

Ym mis Mawrth 2020, roedd Heddlu De Cymru yn cyflogi 2529 o aelodau o staff (gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu) a 3052 o swyddogion. Mae telerau ac amodau gwasanaeth y swyddogion a'r staff a gyflogir yn wahanol. Caiff y ddwy raddfa gyflog eu trafod ar sail genedlaethol.

Mae'n gwasanaethu 1.3 miliwn o bobl, sef 42% o boblogaeth Cymru. Mae'r heddlu yn cwmpasu ardal saith awdurdod lleol, sef Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Bro Morgannwg.

Crynodeb o'r bwlch cyflog ar gyfer taliadau bonws

Nid oes llawer o gyfle i swyddogion ennill bonws ac yn gyffredinol, cânt eu rhoi am dasgau 'eithriadol o annymunol', ac yn ôl rheoliadau'r heddlu, caniateir talu swm rhwng £50 a £500. Ym mis Medi 2020, cyflwynwyd dau gategori bonws arall. Mae yn un cydnabod cyflawni a chynnal sgiliau ditectif a chymwysterau i helpu i fynd i'r afael â phrinder cenedlaethol o ran sgiliau ditectif.

Rhoddir taliadau bonws i staff yr heddlu am waith neu gyfrifoldebau ychwanegol, a'r isafswm yw £50 fel arfer. Nid yw Prif Swyddogion yn derbyn taliadau bonws.

Nifer bach iawn sy'n derbyn taliadau bonws ac felly bydd newid bach mewn un taliad yn arwain at newid canrannol mawr i'r heddlu.

Beth yw canolrif a chymedr?

Pe bai ein holl staff a swyddogion yn sefyll mewn dwy res wedi'u rhannu'n fenywod a dynion yn nhrefn eu cyflogau o'r uchaf i'r isaf, mae'r **canolrif** yn cymharu cyflog y fenyw yng nghanol ei llinell hi â chyflog y dyn yng nghanol ei linell ef.

Mae **cymedr** y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dangos y gwahaniaeth rhwng y gyfradd fesul awr a delir i ddynion a menywod.

Staff yr Heddlu

Ym mis **Mawrth 2020** roedd Heddlu De Cymru yn cyflogi **2529** o Staff yr Heddlu (gan gynnwys Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu). Roedd **993** yn ddynion ac roedd **1536** yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod **60.74%** o'n staff yn fenywod ac mae'n gynnydd o **0.20%** ers 2019.

60.74% Menywod

39.26% Dynion

Cymedr

Mae dynion yn ennill

7.24%

yn fwy na menywod.

Canolrif

Mae dynion yn ennill

0.72%

yn fwy na menywod.

Chwartel 1



Chwartel 2



Chwartel 3



Chwartel 4



Y gyfran o ddynion a menywod a gafodd fonws

Swyddogion yr Heddlu

Ym mis **Mawrth 2020** roedd Heddlu De Cymru yn cyflogi **3052** o Swyddogion yr Heddlu. Roedd **2058** yn ddynion ac roedd **994** yn fenywod. Mae hyn yn golygu bod **32.6%** o'n swyddogion yn fenywod ac mae'n cynrychioli cynnydd o **0.50%** ers 2019.

32.6% Menywod

67.4% Dynion

Cymedr

Mae dynion yn ennill
7.14%
yn fwy na menywod.

Canolrif

Mae dynion yn ennill
1.02%
yn fwy na menywod.

Chwartel 1



Chwartel 2



Chwartel 3



Chwartel 4



Y gyfran o ddynion a menywod a gafodd fonws



Staff yr Heddlu a Swyddogion yr Heddlu

Ym mis **Mawrth 2020**, roedd Heddlu De Cymru yn cyflogi **5581** o Swyddogion a Staff. Roedd **2530** yn fenywod ac roedd **3051** yn ddynion. Mae hyn yn golygu bod **45.3%** o'n gweithlu yn fenywod ac mae'n cynrychioli cynnydd o **0.7%** ers 2019.

45.3% Menywod

54.7% Dynion

Cymedr

Mae dynion yn ennill
12.44%
yn fwy na menywod.

Canolrif

Mae dynion yn ennill
21.70%
yn fwy na menywod.

Chwartel 1



Chwartel 2



Chwartel 3



Chwartel 4



Y gyfran o ddynion a menywod a gafodd fonws

Recriwtio Menywod

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol dros y ddeng mlynedd diwethaf. Yn 1998, roedd 110 o recriwtiaid, ac roedd 32 ohonynt yn fenywod, sef 29%. Rydym wedi cyflawni llawer ond mae lle i wella o hyd er mwyn gwireddu ein huchelgais o gael cymhareb 50/50 o staff gwrywaidd/benywaidd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2020, roedd 75 o recriwtiaid yn fenywod, sef 40% o'r holl recriwtiaid. Roedd hyn yn ostyngiad bach o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2019).



Casgliadau ac Argymhellion

Cafodd y ffigurau a nodir uchod eu cyfrifo gan ddefnyddio methodolegau safonol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Cafodd y wybodaeth a gyflwynir ei chasglu ar 31/03/20 ac roedd yn ystyried yr holl ddata ar gyfer Heddlu De Cymru ar y diwrnod hwnnw neu yn ystod y mis cyn y dyddiad hwn.

Mae ein cynrychiolaeth o ran swyddogion benywaidd wedi bod yn cynyddu bob blwyddyn ers peth amser, er y bu gostyngiad bach yn 2020. Mae hyn yn destun pryder o ystyried y cynnydd da sydd wedi'i wneud hyd yma.

Mae Heddlu De Cymru wedi ymrwymo i sicrhau sefydliad amrywiol a chynhwysol a byddwn yn adolygu ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Rhywedd er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu ein huchelgais i sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau ym mhob rhan o'n gweithlu. Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â chynrychiolwyr o Ffederasiwn yr Heddlu, Undebau Llafur, y Rhwydwaith Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, cymdeithasau staff eraill a chyrff fel Chwarae Teg a He for She er mwyn deall unrhyw rwystrau a geir yn ein polisïau a'n prosesau.

Yn ogystal, rydym yn datblygu strategaeth newydd, sef strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn y Gweithlu, sy'n nodi ein huchelgais i gyflawni cydbwysedd 50/50 rhwng y rhywiau yn y sefydliad. Rydym yn adnewyddu ein strwythur llywodraethu er mwyn sicrhau ein bod parhau i herio anghydraddoldeb, dechrau sgyrsiau newydd, gosod targedau heriol, meithrin cydberthnasau cynhyrchiol a helpu pobl i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

Rydym yn cydnabod ymroddiad pawb sydd wedi cyfrannu at ein llwyddiannau hyd yma ac yn cydnabod bod gennym le i wella o hyd. Drwy benderfyniad ein staff a'n swyddogion, ac ymrwymiad ac anogaeth barhaus ein Prif Swyddogion, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, yr Uwch Dîm Rheoli a rhanddeiliaid allweddol eraill, byddwn yn parhau i ymdrechu i wneud cynnydd wrth fynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng y rhywiau yn ein gweithlu a'i wella.